Ionawr 2012

Annwyl Riant/Gyfaill

CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Ysgrifennaf atoch i ofyn yn garedig am eich cefnogaeth i'r Cyfeillion. Rydym fel Pwyllgor yn cyfarfod i drefnu gwahanol weithgareddau i godi arian i gefnogi gwaith yr ysgol. Mae'r Cyfeillion yn ddiweddar wedi cyfrannu arian tuag at agweddau megis offer sain i'r Neuadd, gweithgareddau chwaraeon, Eisteddfod yr Ysgol, sustem CCTV, cyflenwadau dwr yfed ffres ar gael i ddisgyblion, ayyb. **Rydym ar hyn o bryd yn casglu arian tuag at brynu bws mini newydd i'r ysgol ar gyfer Medi 2012**. Mae llawer o'r rhain yn agweddau y mae'r gymuned hefyd yn cael budd ohonynt drwy'r defnydd helaeth o'r ysgol gan glybiau a mudiadau lleol.

Un ffordd y gellwch gefnogi'r Cyfeillion yw drwy **ymaelodi â'r Clwb 100** am £1 y mis. Gallwch ymaelodi drwy gwblhau'r bonyn isod a'i ddychwelyd i Swyddfa'r Ysgol gyda taliad blwyddyn o £12 - arian parod neu siec yn daladwy i 'Cyfeillion Ysgol Brynrefail', os gwelwch yn dda. Efallai byddai'n well gennych wneud trefniant arched banc - amgaeaf ffurflen bwrpasol er hwylustod. Telir hanner incwm y Clwb 100 yn ôl mewn gwobrwyon i'r aelodau.

Mae'r Pwyllgor bob amser yn awyddus i groesawu aelodau newydd. Cysylltwch â Swyddfa'r Ysgol i adael eich enw a'ch rhif ffôn os oes gennych ddiddordeb ymuno â ni, os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogwn bob cefnogaeth i'n gwaith a'n gweithgareddau.

Yn gywir,

Eifion Jones

Eifion Jones
Prifathro a Llywydd Cyfeillion Ysgol Brynrefail

CLWB 100 CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Enw: _____ Teitl: _____ Ffôn: _____

Cyfeiriad: _____

_____ Côd Post: _____

Amgaeaf: Arched Banc ☐ Siec ☐ £12 arian ☐

Enw'r plentyn hynaf (os yn berthnasol): _____ Bl./Dosb.: _____